# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Woodside Grange**

**CARTREF GOFAL WOODSIDE GRANGE
45 TAN Y BRYN ROAD, LLANDRILLO-YN-RHOS
BAE COLWYN
LL28 4AD**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

14 Ionawr 2020

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Woodside Grange wedi'i leoli mewn ardal breswyl dawel yn Llandrillo-yn-Rhos. Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal preswyl a chymorth ar gyfer hyd at 35 o bobl.

Mae'r darparwr cofrestredig yn bartneriaeth. Michelle Snook yw'r Unigolyn Cyfrifol sy'n goruchwylio'r gwasanaeth, a hi yw un o'r partneriaid. Mae'r rheolwr wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Ar y cyfan, mae'r bobl sy'n byw yn Woodside Grange yn cael gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gan staff sy'n eu hadnabod yn dda ac sy'n gallu diwallu eu hanghenion. Caiff dewisiadau'r bobl eu parchu a gallant leisio eu barn am y ffordd y maent am gael eu cefnogi. Caiff eu hannibyniaeth ei hannog, gallant gymdeithasu â'i gilydd, a darperir gweithgareddau ar gyfer y rheini sydd am gymryd rhan. Caiff unrhyw newidiadau i anghenion neu hwyliau eu nodi a, lle y bo'n briodol, caiff atgyfeiriadau eu gwneud at y gweithwyr iechyd proffesiynol perthnasol er mwyn sicrhau bod y bobl yn aros yn iach. Mae'r staff yn trin y bobl ag urddas a charedigrwydd ac maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r bobl.

### 2. Gwelliannau

Cafodd y cartref ei gofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, a hwn oedd arolygiad cyntaf y cartref o dan y ddeddfwriaeth newydd. Caiff unrhyw welliannau eu hystyried fel rhan o'r arolygiad nesaf.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Mae adran pump o'r adroddiad hwn yn nodi ein hargymhellion ar gyfer gwella'r gwasanaeth. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Cynnwys y bobl/perthnasau
- Sefydlu
- Goruchwylio

## 1. Llesiant

### Ein canfyddiadau

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Roedd cynlluniau personol y bobl yn cynnwys gwybodaeth am yr enw roeddent am ei ddefnyddio yn ogystal â'u dymuniadau, er enghraifft am aros mor annibynnol â phosibl, rheoli eu bywydau eu hunain a gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain.
Roedd dewisiadau'r bobl o ran ble roeddent am fwyta eu prydau yn cael eu cofnodi yn eu cynlluniau. Roedd y staff yn cynnig dewis o ddiodydd i'r bobl a gwnaethant ofyn i un unigolyn *"do you want to come and make some drinks"*, roedd am wneud hynny ac roedd hyn yn unol â'i gynllun personol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cynnig dewisiadau i'r bobl, gan gynnwys beth roeddent am ei wisgo, beth roeddent am ei wneud, amseroedd codi yn y bore neu fynd i'r gwely gyda'r nos. Mae amgylchiadau unigol yn cael eu hystyried a gall y bobl gyfrannu at benderfyniadau sy'n ymwneud â'u bywyd.

Mae'r bobl yn cael cymorth gyda'u llesiant corfforol, meddyliol, emosiynol a chymdeithasol. Mae'r bobl yn gallu manteisio ar weithwyr gofal iechyd proffesiynol perthnasol pan fydd eu hanghenion yn newid, er mwyn eu cadw'n iach. Darperir gweithgareddau ar gyfer y bobl sydd am gymryd rhan, gan barchu dymuniadau'r rheini nad ydynt am gymryd rhan. Clywsom y staff yn siarad ag unigolyn am y math o waith yr arferai ei wneud, a gwelsom fod ei gynllun personol yn nodi *“talk about my life nothing makes me happier”.* Gwnaethom siarad â dau unigolyn a oedd yn cymryd eu hamser i fwyta eu brecwast, gan fwynhau'r golygfeydd, yr heulwen a'r gerddoriaeth a oedd yn chwarae yn y cefndir. Dywedodd perthynas wrthym fod yr aelod o'i deulu yn mwynhau croesawu'r plant o'r feithrinfa leol a bod ci y cartref, o'r enw Dexter, *“very much part of things”.* Roedd gwybodaeth am ddewisiadau crefyddol a diwylliannol y bobl yn cael eu cofnodi. Gwelwyd eitemau crefyddol mewn ystafell a oedd yn adlewyrchu ffydd a chredoau'r unigolyn, ac roedd cyswllt â phobl yr eglwys yn cael ei gynnal. Mae'r bobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir i wneud pethau sy'n eu gwneud yn hapus.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae'r staff yn cael hyfforddiant ar ddiogelu ac mae polisïau a gweithdrefnau ar waith er mwyn iddynt eu dilyn mewn perthynas â diogelu a chwynion. Dywedodd perthynas a'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn gallu codi pryderon, ac yr aed i'r afael â'r pryderon hynny. Roedd ceisiadau am Drefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid wedi cael eu gwneud lle roedd angen wedi cael ei nodi. Roedd asesiadau risg hefyd wedi cael eu cwblhau er mwyn diogelu'r bobl rhag niwed. Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth gan staff hyfforddedig ac mae systemau ar waith i'w cadw'n ddiogel.

Mae'r bobl yn byw mewn llety addas. Mae Woodside Grange wedi cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac wedi'i addurno'n dda, ac mae sylw wedi'i roi i fanylder o ran y celfi a'r llenni a deunyddiau ym mhob rhan o'r cartref. Dywedodd y rheolwr wrthym fod y bobl wedi helpu i ddewis yr addurniadau, gan gynnwys edrych ar samplau o bapur wal, a bod eu hawgrymiadau wedi cael eu hystyried. Roedd y bobl yn dewis ble roeddent am dreulio eu hamser, boed hynny ar eu pen eu hunain neu'n cymdeithasu ag eraill yn y lolfeydd. Roedd safle bws yn un o'r coridorau a dywedodd y rheolwr wrthym y byddai'r staff yn eistedd yno ac yn mynd ar daith ddychmygol gyda'i gilydd. Roedd ardaloedd awyr agored gwahanol ar gael i bobl eu defnyddio megis gardd synhwyraidd gyda gwelyau blodau uchel ac adran

glan y môr, os oedd y tywydd yn caniatáu. Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n eu cefnogi i gyflawni eu llesiant.

## 2. Gofal a Chymorth

### Ein canfyddiadau

Mae cynlluniau personol y bobl yn cael eu llunio drwy ymgynghori â nhw, eu perthnasau a'u heiriolwyr, yn ôl yr angen. Dywedodd aelod o'r staff fod y teulu'n cael ei gynnwys o'r camau cyntaf o ran holi ynghylch unigolyn yn dod i fyw yn y gwasanaeth, a'u bod yn *"find out a lot about who person is then".* Siaradodd aelodau eraill o'r staff am y ffordd roeddent yn treulio amser gyda'r bobl a'u teuluoedd er mwyn cael rhagor o wybodaeth. Gwnaethom siarad â pherthynas a ddywedodd wrthym ei fod yn ymwybodol o gynllun personol yr aelod o'i deulu ac yn cael gwybod am unrhyw newidiadau.  Roedd cynlluniau personol y bobl yn cael eu hadolygu bob mis, neu wrth i anghenion newid. Mae angen ystyried darparu tystiolaeth o'r ffaith bod y bobl a'u perthnasau'n cael eu cynnwys yn y broses o lunio cynlluniau personol, a chafodd hyn ei drafod. Bydd y rheolwr yn adolygu hyn. Mae gan y bobl gynlluniau cywir a chyfredol ynghylch y ffordd y darperir gofal iddynt er mwyn diwallu eu hanghenion unigol.

Mae'r bobl yn cael cymorth i sicrhau eu llesiant emosiynol a meddyliol. Roedd y wybodaeth "About me" yn cofnodi dewisiadau'r bobl, cydberthnasau pwysig a'r ffordd roeddent am ymgysylltu ag eraill. Roedd enghreifftiau'n cynnwys mwynhau sgyrsiau â gofalwyr, chwerthin a thynnu coes, bod yn rhyngweithiol, angen ysgogiad, gwneud ffrindiau newydd a theimlo fel rhan o gymuned. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod yn ymchwilio i'r syniad o lunio rhestr wirio o weithgareddau, ac yn datblygu hynny, er mwyn cynnal sylw unigolyn am ei fod yn canolbwyntio ar wirio pethau o ganlyniad i'r math o waith yr arferai ei wneud. Gwelsom fod un unigolyn yn cadw'n brysur drwy lanhau, sychu byrddau, casglu cwpanau a soseri a'u clirio. Roedd hyn yn unol â'i gynllun personol er mwyn sicrhau ei fod yn teimlo'n hapus, yn fodlon, yn ddefnyddiol a'i fod yn gallu helpu eraill. Pan oedd y bobl yn dangos arwyddion o gynhyrfu, roedd y staff yn sylwi ar hyn ac yn ymyrryd ac yn tawelu sefyllfaoedd mewn ffordd garedig, gofalgar a chadarnhaol. Roedd newidiadau i hwyliau'r bobl yn cael eu monitro, eu trafod a'u hatgyfeirio at weithwyr iechyd proffesiynol pan fyddai angen adolygu a oedd eu hanghenion yn cael eu diwallu'n briodol. Dywedodd un perthynas fod y staff yn *"always kind, helpful, nice and very caring".* Dywedodd aelod o'r staff wrthym fod *"care for service users very, very good"*, *"everyone's happy"* a *"like a family leaving my family to come to this family".*

Yn un o'r lolfeydd, roedd cerddoriaeth yn chwarae, roedd y bobl yn gwenu, tapio eu traed ac yn canu, a gwnaeth un unigolyn guro ei dwylo ar ddiwedd y gân. Gofynnodd y staff i'r bobl a oeddent am wylio Faulty Towers, a chafodd y rhaglen ei roi ar y teledu iddynt. Dywedodd y rheolwr wrthym fod gweithgareddau'n cael eu cynnal megis cwisiau, sesiynau hel atgofion, celf a chrefft, ymarfer corff mewn cadair ac ymarferion cerddoriaeth, a bod diddanwyr yn dod i'r cartref i ganu, dawnsio a chwarae offerynnau cerddorol. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod yn ceisio bod mor greadigol â phosibl er mwyn rhoi profiadau newydd a diddorol i'r bobl. Arferai un unigolyn gadw asynnod, a gwnaed trefniadau i ddod â dau asyn i'r cartref er mwyn i'r bobl gael eu gweld a'u bwydo. Daeth rhywun a oedd yn edrych yn debyg i Winston Churchill i'r cartref i wneud araith a threulio amser gyda'r bobl. Dywedodd perthynas wrthym am y digwyddiadau gwahanol a oedd wedi'u cynnal, gan gynnwys ffair haf, a bod llawer o'r bobl a'u teuluoedd wedi'u mynychu. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod wedi trefnu i gart hufen iâ hen ffasiwn weini hufen iâ i'r bobl yn yr awyr agored pan oedd y tywydd yn braf, a sioe Punch a Judy i'r bobl ei gwylio Mae'r bobl yn cael y gofal a chymorth sydd eu hangen arnynt, gan ystyried eu natur unigol a'u dymuniadau.

Mae'r bobl yn cael cymorth gyda'u hiechyd corfforol. Roedd cynlluniau personol y bobl yn cynnwys gwybodaeth am gyflyrau iechyd y bobl ac unrhyw weithwyr gofal iechyd proffesiynol a oedd yn rhan o'u gofal.
Roedd ymweliadau gan Feddygon Teulu, Nyrsys Ardal a Therapyddion Galwedigaethol yn cael eu cofnodi yn ffeiliau'r bobl. Dywedodd y rheolwr wrthym fod un unigolyn yn cwympo'n fwy aml, a nododd y camau a oedd wedi'u cymryd i gynnwys gweithwyr proffesiynol eraill er mwyn sicrhau bod yr unigolyn yn cael y gofal a'r cymorth gorau posibl. Roedd ffeiliau'r staff yn cynnwys tystysgrifau ar gyfer atal cwympiadau, atal a rheoli heintiau, rhoi meddyginiaethau, hyfforddiant cymorth cyntaf sylfaenol a sesiynau hyfforddi ar addysg iechyd y geg. Soniodd aelod o'r staff am bwysigrwydd sicrhau gofal iechyd y geg da i'r bobl. Mae'r bobl yn cael gwasanaethau gofal iechyd a gwasanaethau eraill.

## 3. Yr Amgylchedd

### Ein canfyddiadau

Mae'r bobl yn byw mewn cartref sydd wedi'i addurno'n braf ac sy'n gyfforddus. Roedd ystafelloedd y bobl wedi cael eu personoli â ffotograffau, llyfrau, planhigion ac eitemau eraill a oedd yn bwysig iddynt. Roedd yr ystafelloedd wedi'u haddurno'n dda, a rhoddwyd sylw i fanylder o ran sicrhau bod y dillad gwely yn cyd-fynd â'r llenni. Roedd ffenestri mawr yn ystafelloedd y bobl, gan olygu bod llawer o olau naturiol yn yr ystafelloedd yn ogystal â chynnig golygfeydd prydferth dros Landrillo-yn-Rhos. Roedd dwy brif lolfa, ardaloedd bwyta a mannau tawel eraill lle y gallai'r bobl dreulio eu hamser. Roedd un unigolyn yn eistedd mewn lolfa fach dawel a dywedodd y staff wrthym mai dyma oedd ei ddymuniad. Roedd ardal gegin lai a dywedodd y rheolwr wrthym fod y bobl yn defnyddio'r ardal hon i wneud eu brecwast eu hunain a phobi cacennau.
Nododd perthynas ac aelod o'r staff fod y cartref yn lân. Dywedodd un aelod o'r staff fod yr *"environment they are in is really nice".* Dywedwyd wrthym fod y cartref wedi cael ei addurno ar gyfer y Nadolig gan aelod o'r staff a pherthynas. Dywedodd y rheolwr wrthym fod pethau'n esblygu ac yn newid drwy'r amser a soniodd am y cynlluniau a wnaed ar gyfer y flwyddyn i ddod mewn perthynas â'r amgylchedd. Roedd hyn yn cynnwys prynu bath synhwyraidd er mwyn gwella profiad y bobl wrth ymolchi. Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n diwallu eu hanghenion, yn hyrwyddo annibyniaeth ac yn eu helpu i gyflawni eu canlyniadau personol.

Mae'r bobl yn byw mewn cartref sydd â systemau ar waith i asesu'r amgylchedd. Roedd dau unigolyn wedi'u cyflogi i wneud gwaith cynnal a chadw a chwblhau gwaith cyffredinol yn y cartref, ac roeddent ar ddyletswydd 24 awr y dydd. Gwnaethom siarad ag un o'r unigolion cynnal a chadw a ddywedodd wrthym fod systemau cofnodi ar waith er mwyn sicrhau bod gwiriadau iechyd, diogelwch a thân angenrheidiol yn cael eu cwblhau. Cafodd yr asesiad risg diwethaf ei gynnal ym mis Hydref 2019 a dywedwyd wrthym fod hwn yn cael ei gynnal bob blwyddyn, yn ogystal ag archwiliadau tân. Dywedodd yr unigolyn cynnal a chadw wrthym fod ymarferion tân yn cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn a bod hyfforddwr allanol yn ymweld â'r cartref bob chwe mis er mwyn ymarfer yr ymarferion tân gyda'r staff. Roedd Cynlluniau Personol Gadael mewn Argyfwng wedi cael eu cwblhau, gydag unrhyw anghenion arbennig a oedd gan y bobl wedi'u huwcholeuo'n felyn, ac roedd y rhain ar gael i'r gwasanaeth tân. Roedd y staff wedi cael hyfforddiant sefydlu mewn perthynas â thân yn ogystal â thystysgrifau ar gyfer hyfforddiant ar ddiogelwch tân yn y gweithle a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2019. Mae'r darparwr gwasanaeth yn nodi'r risgiau i iechyd a diogelwch ac mae'n gweithredu i leihau'r rhain.

## 4. Arwain a Rheoli

### Ein canfyddiadau

Mae'r bobl yn cael eu diogelu drwy wiriadau recriwtio. Roedd ffeiliau'r staff a welsom yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol. Roedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu cwblhau er mwyn sicrhau bod unigolion yn addas i ddarparu gofal a chymorth i oedolion sy'n agored i niwed. Gwelsom dystiolaeth o sesiynau sefydlu'r staff a chadarnhaodd y staff eu bod wedi cael y sesiynau hyn. Gwnaethom drafod â'r rheolwr y dylai'r staff gwblhau'r rhaglen sefydlu sy'n ofynnol gan Gofal Cymdeithasol Cymru o fewn yr amserlen sydd wedi'i diffinio, yn ogystal ag unrhyw raglenni sefydlu sy'n benodol i'r gwasanaeth. Dywedodd y rheolwr wrthym y byddai'n adolygu hyn. Mae'r bobl yn cael cymorth gan staff sy'n addas i roi gofal a chymorth iddynt.

Mae'r bobl yn cael budd o gael eu cefnogi gan staff sy'n cael eu hannog a'u datblygu yn eu rolau. Siaradodd y staff â ni am y cymorth roeddent yn ei gael a gwnaethant gadarnhau bod hyn yn eu helpu i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n effeithiol. Roedd sylwadau gan y staff yn cynnwys *"team we have got is brilliant at the moment"* ac o ran cyngor a chymorth, *"always at end of phone, senior here most shifts".* Roedd cofnodion a sgyrsiau â'r staff yn dangos bod sesiynau goruchwylio un i un yn cael eu cynnal. Roedd hyn yn cynnig cyfle iddynt godi unrhyw faterion neu nodi unrhyw gymorth neu anghenion hyfforddi ychwanegol gydag uwch aelod o'r staff. Gwelsom fod nodiadau goruchwylio yn cofnodi sylwadau ac nid y camau i'w cymryd i ddatrys unrhyw faterion, a chafodd hyn ei drafod â'r rheolwr. Dywedodd un aelod o'r staff mai un maes i'w wella oedd gwrando mwy ar y staff a cheisio datrys y broblem. Ar adeg ein hymweliad, roedd y dirprwy reolwr yn trefnu arfarniadau blynyddol ar gyfer y staff. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod yn ystyried adolygu a rhoi system newydd ar waith er mwyn cofnodi hyfforddiant y staff, gan nodi'r hyn a fynychwyd, yr hyn a drefnwyd a phryd y byddai angen mynychu cwrs gloywi. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod bob amser yn chwilio am hyfforddiant y byddai'r staff yn cael budd ohono, gan gynnwys trefnu lleoedd ar y bws dementia, a chadarnhaodd y staff eu bod ar fin mynychu'r hyfforddiant hwn a'u bod yn edych ymlaen at y profiad. Mae'r bobl yn gallu cyflawni eu canlyniadau personol unigol gan fod y staff yn cael eu cefnogi a'u hyfforddi yn eu rolau.

Mae systemau a phrosesau ar waith er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei reoli a'i oruchwylio'n dda. Gwnaethom siarad â'r unigolyn cyfrifol a ddywedodd wrthym ei fod ar gael yn Woodside Grange dri diwrnod yr wythnos. Gwnaethom edrych ar yr adroddiadau ymweld bob tri mis a gwblhawyd gan yr unigolyn cyfrifol a oedd yn dangos ei fod wedi treulio amser gyda'r bobl a'i fod yn ystyried unrhyw faterion mewn perthynas â'r amgylchedd. Dywedodd un perthynas ei fod yn cael cyfle i fynegi barn am y gwasanaeth, a dywedodd aelod o'r staff wrthym fod *"manager calls us in on a regular basis and asks us"* am y gwasanaeth a ddarperir. Dywedodd perthynas ac aelod o'r staff wrthym eu bod yn gallu codi unrhyw faterion gyda'r rheolwr, a dywedodd y staff *"the manager is really good"* a *"manager is good and work is flexible, helps us out".* Mae trefniadau ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei gynnal yn dda a bod unigolion yn cael gofal a chymorth er mwyn eu galluogi i gyflawni eu canlyniadau personol.

Roedd cynlluniau'r bobl yn cofnodi eu dewis iaith. Yn ôl y Datganiad o Ddiben, mae Woodside Grange yn ceisio sicrhau darpariaeth Gymraeg a diwallu anghenion cyfathrebu'r unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Sicrhawyd bod pob aelod o'r staff a oedd yn gallu

cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei amlygu'n glir gyda'r logo 'Iaith Gwaith' ar ei wisg. Mae'r gwasanaeth yn parhau i weithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Hwn oedd yr arolygiad cyntaf o’r gwasanaeth ers iddo ailgofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA).

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Dyma'r meysydd i'w gwella a argymhellir er mwyn hybu canlyniadau cadarnhaol i'r bobl:

- Tystiolaeth o gyfraniad y bobl/perthnasau at gynlluniau personol
- Dylai'r staff gwblhau fframwaith sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru
- Dylid cofnodi unrhyw gamau i'w cymryd yn nodiadau goruchwylio'r staff.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arolygu. Gwnaethom gynnal ymweliad dirybudd â'r gwasanaeth ar 13 Ionawr 2020 rhwng 09:35 a.m. a 3.50 p.m.
unannounced visit to the service on 13 January 2020 between the hours of 09:35 a.m. and

Roedd yr arolygiad hwn yn rhan o adolygiad AGC o ganlyniadau ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia mewn cartrefi gofal.

Ystyriwyd y rheoliadau canlynol fel rhan o'r arolygiad hwn:

Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017.

Defnyddiwyd y dulliau canlynol:

- Gwnaethom siarad â'r bobl, perthynas, yr unigolyn cyfrifol, y dirprwy reolwr, tri aelod o'r staff gofal ac unigolyn cynnal a chadw.
- Gwnaethom ddefnyddio'r Fframwaith Arsylwi Byr ar gyfer Arolygu (SOFI). Mae adnodd SOFI yn galluogi arolygwyr i arsylwi ar ofal a'i gofnodi er mwyn ein helpu i ddeall profiadau pobl na allant gyfathrebu â ni.
- Gwnaethom edrych ar amrywiaeth o gofnodion. Gwnaethom ganolbwyntio ar bedwar cynllun personol a dogfennaeth
  gysylltiedig, ffeiliau tri aelod o'r staff, gwybodaeth am iechyd a diogelwch a thân, y polisi cwynion a'r polisi diogelu.
- Gwnaethom archwilio'r Datganiad o Ddiben a'i gymharu â'r gwasanaeth a arolygwyd gennym. Mae hwn yn nodi'r weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth ac yn dangos sut, yn enwedig o ran y
  lefelau staffio a hyfforddiant, y bydd y gwasanaeth yn hyrwyddo'r canlyniadau gorau posibl i'r bobl y mae'n gofalu amdanynt.
- Gwnaethom edrych ar ardaloedd cymunedol y cartref, a sampl o'r ystafelloedd gwely.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwasanaeth Cartref Gofal** |
| **Darparwr y Gwasanaeth** | **Cartref Gofal Woodside Grange** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Michelle Snook** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **35** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **Hwn oedd yr arolygiad cyntaf ers i'r gwasanaeth gael ei gofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.** |
| **Dyddiad yr ymweliad(au) arolygu hwn** | **13/01/2020** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 05/03/2020